



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Briffiad gan Cymorth i Ferched Cymru ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion: Mai 2023

Mae'r briffiad hwn yn crynhoi pryderon allweddol Cymorth i Ferched Cymru yn dilyn cyflwyno'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion gan Lywodraeth y DU yn y Senedd ar 29 Mawrth 2023. Bydd ail ddarlleniad y Bil yn dechrau ar 15 Mai 2023.

Cyflwyniad

Ochr yn ochr â'r sector arbenigol a goroeswyr, roedd Cymorth i Ferched Cymru wedi'u calonogi gan bosibiliadau'r Bil Dioddefwyr a sut y gallai gryfhau darpariaeth i sicrhau bod goroeswyr yn flaenllaw a'u bod yn gallu ailadeiladu eu bywydau ar ôl trais a cham-drin. Yn dilyn ailgyflwyno'r Bil, roedd yn siom sylweddol i ni weld y ffocws yn symud o ddioddefwyr i "ddioddefwyr a charcharorion" a'r diffyg ystyriaeth o'r ffordd y mae hyn yn tanseilio goroeswyr, eu profiad a'u canfyddiad o'u problemau a'u hanghenion drwy gael eu huno â rhai'r charcharorion yn enw'r Bil, beth bynnag y bydd yn ei gynnwys. Rydym ni'n pryderu nad yw'r Bil yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu blaenoriaethu mewn polisi ac ymarfer.

Effaith ar Gymru fel cenedl ddatganoledig

Credwn ei bod yn aneglur ar hyn o bryd a roddwyd digon o sylw i berthnasedd y Bil i Gymru fel cenedl ddatganoledig. Mae Adran 12 y Bil yn adlewyrchu'r ddyletswydd i gydweithio wrth ymarfer swyddogaethau cymorth y dioddefwr ac yn crybwyll Lloegr yn benodol. Nid yw'n glir sut y bydd y ddyletswydd hon i gydweithio'n gweithio yng Nghymru a sut y bydd yn gweithio pan fydd dioddefwr angen cymorth yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr. Ymhellach, ar 11 Ebrill, amlygodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol Jane Hutt AS fod y Bil yn cyffwrdd ar nifer o feysydd lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, ac oherwydd yr ymgynghori hynod o gyfyngedig a gafwyd ymlaen llaw gan lywodraeth y DU, ar y pryd nid oedd wedi bod yn bosibl ystyried y canlyniadau'n llawn mewn perthynas â materion datganoledig¹. Bydd yn hanfodol adolygu'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd wedi'i gyhoeddi er mwyn deall effaith lawn y Bil ar Gymru ac i sicrhau ei fod yn ategu'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)².

Absenoldeb dioddefwyr sy'n fudwyr a'r angen am wal dân

Ynghyd â sefydliadau arbenigol eraill yn y sector, credwn fod y Bil yn methu ag ymdrin ag anghydraddoldebau o ran cyrchu cymorth arbenigol a chyfiawnder i ddioddefwyr o grwpiau ymledig. Ni chafwyd unrhyw gyfeiriadau at ddioddefwyr mudol a'r rhai sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Ni fydd y Bil yn darparu'r hyn sydd ei angen ar ddioddefwyr os nad yw'n ymdrin ag anghenion yr holl ddioddefwyr. Rhaid i'r Bil gynnwys gwarchodaeth i ddioddefwyr sy'n fudwyr ochr yn ochr â wal dân. Mae trais yn erbyn menywod yn effeithio'n anghymesur ar fenywod sy'n fudwyr³ ac mae llawer o fenywod sy'n fudwyr wedi profi cyflawnwyr sydd wedi dal eu statws mewn fudo ansicr yn eu herbyn. Mae methu â chynnwys goroeswyr sy'n fudwyr yn y ffordd hon yn creu mwy o gyfleoedd i gam-drin, a thrwy hynny hwyluso mwy o erlid gan Fil sydd wedi'i gynllunio i wasanaethu anghenion dioddefwyr. Mae sefydliadau fel Gwasanaeth Hawliau Menywod America Ladin (LAWRS) yn yr ymgyrch

¹ <https://business.senedd.wales/documents/s135611/LJC6-12-23%20-%20Paper%2020%20-%20Letter%20from%20the%20Minister%20for%20Social%20Justice%20to%20the%20Llywydd%2011%20April%202023.pdf>

² <https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2022/5/2/1653392517/violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-strategy-2022-2026.pdf>

³ <https://research.senedd.wales/research-articles/has-she-got-status-gender-based-violence-and-the-needs-of-migrant-women/>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

#StepUpMigrantWomen wedi pwysleisio bod rhaid rhoi'r gorau i rannu data pan fydd gan ddiodefwyr statws mewnffudo ansicr. Rydym ni'n siomedig i weld nad yw Llywodraeth y DU wedi cyflwyno wal dân o ran rhannu gwybodaeth rhwng gorfodi mewnffudo a gwasanaethau statudol ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig, er bod tystiolaeth gan sefydliadau 'gan ac ar gyfer' wedi dangos nad yw nifer sylweddol o ddiodefwyr yn hysbysu am gam-drin/trais oherwydd eu bod yn ofni'r gwasanaethau mewnffudo⁴. Yn eu hymateb i'r adroddiad ar drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod sy'n fudwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ei bod yn glir bod rhannu data'n gallu bod yn rhwystr i oroeswyr VAWDSASV gyrchu cymorth⁵. Mae'n amlygu ymhellach na all Llywodraeth Cymru osod wal dân data yn annibynnol gan fod llawer o'r sefydliadau sy'n dal data heb eu datganoli, fodd bynnag mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli i ddeall yr ystyriaethau a'r opsiynau sydd ar gael⁶. Cred Cymorth i Ferched Cymru ei bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gydnabod yr effaith y mae rhannu data'n ei gael ar ddiodefwyr sy'n fudwyr a bod yn rhaid iddynt ymrwymo i sicrhau bod y Bil Dioddefwyr yn mynd i'r afael yn briodol ag anghenion pob goroeswr ac yn gadael iddynt gyrchu cymorth a chyfiawnder heb ofn.

Cyllid

Mae'r sector arbenigol eisoes yn profi lefelau sylweddol o alw, ochr yn ochr â pharhad ffrydiau cyllido tymor byr anghynladwy. Mae diffyg darpariaeth cyllid i sicrhau bod modd cyflawni'r mesurau yn y Bil, fydd yn effeithio'n sylweddol ar sector sydd eisoes yn ei chael yn anodd. Bwriad y Bil yw codi ymwybyddiaeth o hawliau diodefwyr, ond ni cheir cydnabyddiaeth o'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i sicrhau bod modd iddynt gyrchu'r gwasanaethau perthnasol⁷. Fel yr amlygwyd gan adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig A Patchwork of Provision, mae gwasanaethau'n ei chael yn anodd diwallu galw sy'n cynyddu drwy'r amser, a cheir loteri cod post o ddarpariaeth gwasanaeth o hyd⁸. Mae hyn yn golygu nad yw pob goroeswr yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Nid oes gan lawer o wasanaethau gyllid penodol i ddarparu gwasanaethu i blant a phobl ifanc, felly mae'r cymorth o ganlyniad yn dameidiog, yn gyfyngedig ac yn anghyson⁹. Yn aml mae goroeswyr o grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio'n dymuno derbyn cymorth gan sefydliadau 'gan ac ar gyfer', gan fod ganddynt well dealltwriaeth o gymhlethdodau cam-drin a/neu drais a chroestoriadedd. Er bod galw sylweddol am wasanaethau 'gan ac ar gyfer', maent bum gwaith yn llai tebygol o dderbyn cyllid statudol o'u cymharu â gwasanaethau eraill¹⁰. Mae'n hanfodol felly fod gofynion y Bil yn cael eu cefnogi gan gyllid digonol, i sicrhau nad yw gwasanaethau arbenigol ar eu colled ymhellach a bod goroeswyr yn gallu cyrchu cymorth addas.

Cod Dioddefwyr

Er bod Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r uchelgais i wneud y Cod Dioddefwyr yn fwy sylweddol drwy sicrhau ei swyddogaeth statudol yn dilyn ei gynnwys yn y Bil, credwn nad yw'r Bil yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r cod. Ar hyn bryd mae adran 5 y Bil yn ymdrin ag effaith diffyg

⁴ https://lawrs.org.uk/wp-content/uploads/2023/05/Call-to-action_-_letter.pdf

⁵ <https://www.gov.wales/report-gender-based-violence-and-needs-migrant-women-government-response-html>.

⁶ ibid.

⁷ <https://committees.parliament.uk/publications/28831/documents/174248/default/>, page 5.

⁸ https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2023/02/DAC_Mapping-Abuse-Survivors_Summary-Report_Feb-2023_Digital.pdf

⁹ <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/CYP-FOI-Report-ENG-WWA.pdf>.

¹⁰ <https://domesticabusecommissioner.uk/early-findings-from-our-mapping-show-a-huge-discrepancy-of-services-across-england-and-wales-and-an-acute-lack-of-funding-that-prevents-services-being-able-to-meet-demand/>.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

cydymffurfio. Mae'n nodi na fyddai person nad oedd yn gweithredu'n unol â'r cod yn agored i achos troseddol neu sifil ond y byddai'r methiant yn gallu cael ei ystyried yn ystod unrhyw achos cyfreithiol¹¹. Teimlwn fod yn rhaid i'r Bil fynd yn bellach i sicrhau bod darpariaeth benodol ynghylch diffyg cydymffurfio, gwneud iawn a sancsiynau. Mae angen i'r Bil bwysleisio pwysigrwydd Cod y Dioddefwyr i sicrhau bod dioddefwyr yn brif flaenoriaeth a bod sefydliadau'n cael eu cymell i'w gwreiddio mewn egwyddor ac ymarfer. Heb sancsiynau statudol pellach ar gyfer diffyg cydymffurfiaeth, nid yw'n glir sut y bydd y Bil yn sicrhau bod hawliau dioddefwyr yn cael eu diogelu drwyddi draw, os na fydd sefydliadau'n wynebu unrhyw ganlyniadau os nad ydynt yn cyflawni eu hymrwymiaadau.

Craffu cyn-ddeddfwriaethol

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd 'lleisiau dioddefwyr yn cael eu gosod yn gadarn wrth galon y system cyfiawnder' ac y bydd y Bil yn trawsnewid profiad dioddefwyr yn sylweddol¹². Wrth i'r Pwyllgor Cyfiawnder gynnal craffu cyn-ddeddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr, amlygwyd nad ydynt yn credu bod y Bil yn gwneud dim mwy na'r hyn a wneir gan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli¹³. Gwnaeth y Pwyllgor Cyfiawnder sylwadau ar feysydd fel y gwelliannau prin mewn cydymffurfiaeth gan asiantaethau â Chod y Dioddefwyr a'r niwed y bydd diffyg cyllido pellach yn ei achosi¹⁴. Nid oedd cyflwyno Rhan 3 sy'n canolbwyntio ar Garcharorion wedi'i gynnwys yn y Bil Dioddefwyr drafft, ac felly ni fydd wedi derbyn yr un lefel o graffu. Ar hyn o bryd nid yw'n glir sut y bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau y caiff yr un lefel o graffu ei gymhwyso i rannau ychwanegol y Bil. Rhaid craffu'n llawn ar y rhannau ychwanegol hyn er mwyn deall yr effaith y byddant yn ei gael ar ddioddefwyr.

Arweiniad ar ymgynghorwyr trais domestig a thrais rhywiol annibynnol

Er bod Cymorth i Ferched Cymru yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth i rôl ymgynghorwyr trais domestig (IDVA) a thrais rhywiol annibynnol (ISVA) yn y Bil, rydym ni'n bryderus iawn y bydd y ffocws ar enwi/diffinio'r rolau hyn yn unig yn cael effaith niweidiol ar wasanaethau arbenigol. Mae gwasanaethau arbenigol yn cynnig ystod enfawr o gymorth gan ddibynnu ar anghenion goroeswyr a gall hyn amrywio o eiriolaeth, grwpiau ymadfer a chwmsela; gyda'r cyfan yn debygol o fod y tu allan i gwmpas gwaith IDVA neu ISVA. Tynnodd adroddiad gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig sylw at y ffaith fod 83% o oroeswyr yn dymuno cael cymorth cwnsela a therapiwtig¹⁵. Rydym ni'n bryderus y gallai'r ffocws hwn ar IDVA ac ISVA arwain at gynydd yn y tebygolrwydd y bydd cyrff comisiynu'n anwybyddu gwerth gwasanaethau arbenigol neu rolau nad ydynt yn dod dan gwmpas yr IDVA/ISVA, fydd yn tansilio'r gwasanaethau cymorth hanfodol hyn, y mae goroeswyr yn eu dymuno a'u hangen, yn sylweddol. Bydd culhau'r gwasanaethau sydd ar gael i oroeswyr yn effeithio'n negyddol ar eu hadferiad a'u gallu i ailadeiladu eu bywydau. Credwn ei bod yn rhaid diwygio'r adran hon i gydnabod yr holl wasanaethau cymunedol ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn osgoi datgomisiynu gwasanaethau hanfodol.

Parôl

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu bod ychwanegu'r adran ar barôl, a charcharorion yn fwy cyffredinol, yn tansilio naratif Llywodraeth y DU o fod eisiau sicrhau bod dioddefwyr ar flaen y ddeddfwriaeth er mwyn gwella

¹¹ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0286/220286.pdf>, page 4.

¹² <https://www.gov.uk/government/news/victims-placed-at-heart-of-justice-system-under-radical-shakeup>.

¹³ <https://committees.parliament.uk/publications/28831/documents/174248/default/>, page 3.

¹⁴ Ibid.

¹⁵ https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2023/02/DAC_Mapping-Abuse-Survivors_Summary-Report_Feb-2023_Digital.pdf page 4.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

eu profiadau. Ni chafwyd unrhyw ymgynghori â'r sector ar y cynigion i ehangu cwmpas y Bil i gynnwys carcharorion ac nid yw chwaith wedi derbyn unrhyw graffu cyn-ddeddfwriaethol. Mae cymhlethdod ac amrywiaeth ymdrin â dioddefwyr a charcharorion mewn un darn o ddeddfwriaeth yn creu ystyriaethau gwahanol a gall rannu'r ffocws. Credwn nad yw'r newidiadau sy'n cael eu gwneud dan Ran Tri'r Bil wedi cael eu hystyried gyda dioddefwyr mewn golwg. Ymhellach, mae'n taseilio annibyniaeth y broses parôl drwy ganiatáu i'r ysgrifennydd cyfiawnder roi feto ar benderfyniadau'r bwrdd parôl, mae oedi yn y prosesau yn debygol o achosi rhagor o drawma i ddiodefwyr, a datgymhwyswyd Adran 3 y Ddeddf Hawliau Dynol. Credwn fod datgymhwyso adrannau o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn taseilio egwyddor cyffredinolrwydd hawliau dynol, yn symud at ddileu hawliau dynol ac yn taseilio gwaith i ddileu trais yn erbyn menywod a merched¹⁶.

I gloi, er bod Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r uchelgais i osod anghenion a hawliau dioddefwyr wrth galon y ddarpariaeth, yn ei ffurf bresennol mae'r Bil hwn yn bell o gyflawni uchelgais mor deilwng.

¹⁶ <https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/Womens-rights-are-human-rights-letter-on-human-rights-day-101222-1.pdf>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government